

# Coetir Cymunedol Blaen Bran

## Nod Llesiant

## Ffyrdd o weithio

Mae Coetir Cymunedol Blaen Bran yn ymestyn dros 100 erw yn Nhorfaen ac mae'n cael ei reoli gan Ymddiriedolaeth Coetir Cymunedol Blaen Bran (BBCWT). Mae'r coetir yn cysylltu â thir comin Mynydd Maen a llwybrau cerdded sy'n cysylltu Mynydd Twmbarlwm, Heol Goedwig Cwmcarn a Phont-y-moel.

O dan nifer o berchnogion preifat, plannwyd y tir gyda chymysgedd o Larch Japaneaidd a Phinwydd yr Alban, gan ddarparu ychydig iawn o werth bioamrywiaeth, gyda llwybrau a thraciau wedi'u leinio â Ffawydd. Roedd yr ardal hefyd wedi dioddef ers tro byd o effeithiau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyda difrod tân bwriadol, sbwriel a difrod gan feiciau modur.

Yn 2003, fel ymateb i awydd cryf, lleol i weld y coetiroedd yn cael eu hadfer, ymgymerodd yr Ymddiriedolaeth â'r brydles 999 mlynedd bresennol gyda'r cyfrifoldeb dros gynnal mynediad, gwella llwybrau troed ac arwyddion, ac ymgysylltu â'r gymuned.

Cynhaliwyd arolwg amgylcheddol yn 2005 i ddeall bioamrywiaeth bresennol y coetir a'r problemau roedd yn ei wynebu. O ganlyniad i hyn, ymgymerodd yr Ymddiriedolaeth â chyfres o brosiectau i dynnu coed oedd wedi'u heintio ac oedd yn marw ac ailblannu'r coetir gyda chymysgedd o rywogaethau brodorol, gan gynnwys derw, ceirios a gwern.

Cytunodd yr Ymddiriedolaeth i leihau fandaliaeth drwy greu ymdeimlad o berchnogaeth yn y gymuned leol drwy ymgysylltu â phobl ifanc, annog aelodaeth grŵp a chynnal digwyddiadau cymunedol fel teithiau hanes, teithiau cerdded blodau gwyllt, digwyddiadau chwilota a phicnics.

Roedd y cyllid grant Coetiroedd Cymunedol a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, drwy TrC, yn allweddol i wella hygyrchedd a diogelwch y llwybrau coetir ymhellach. Cafodd y prosiect ei rannu'n dri cham:

Yn ystod Cam 1 cafodd y trac a'r grisiau i'r arboretum eu hadfer. Roedd y grisiau presennol wedi gwisgo ac wedi mynd yn anniogel, felly cafodd y grisiau eu tyllu, eu newid a'u hôl-lenwi i wella hygyrchedd. Cafodd y llwybrau ochr eu hadfer hefyd, a chafodd sianeli draenio eu cloddio i atal dŵr rhag llifo, gan sianelu dŵr ffo i'r arboretum hefyd, gan greu amgylchedd gwlyb i gynnal y coed helyg brodorol.

> "Dymuniad y grŵp oedd cael Blaen Bran fel ardal goetir ddeniadol heb ddiraddiad a fyddai'n denu llawer o bobl i gymryd rhan ac i bobl leol yng Nghwmbrân Uchaf weld y goedwig fel gofod 'nhw'."

Geiriau allweddol: Coetiroedd Cymunedol, prosiectau sy'n cael eu hariannu gan grantiau, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, rheoli ac adfer coetiroedd, mannau gwyrdd hygyrch, ymgysylltu â'r gymuned, cenedlaethau'r dyfodol, partneriaethau, effaith gynaliadwy

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

BBCW

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund



Roedd Cam 2 yn cynnwys gwaith draenio helaeth ac adfer llwybrau drwy'r coetir, gan sicrhau gwell cysylltedd â'r llwybrau cerdded yn y bryniau y tu hwnt. Adeiladwyd pont ar draws y nant gan ddefnyddio deunyddiau o'r coetir lle roedd yn bosibl, a chafodd pyllau casglu eu cloddio i atal llifogydd yn y dyfodol.

Roedd Cam 3 yn cynnwys adfer y prif lwybr drwy'r coetir gyda seiliau caled er mwyn caniatáu mynediad llawn i ymwelwyr â chymorth symudedd a'r gwasanaethau brys, o'r maes parcio isaf i'r pwynt uchaf yn y safle.

Defnyddiwyd y cyllid hefyd i ddiogelu'r gwaith a gafodd ei wneud ar gyfer y dyfodol drwy ddarparu offer a hyfforddiant i wyth gwirfoddolwr i barhau i ofalu am y coetir. Mae ymgysylltu â'r gymuned leol hefyd yn hanfodol i iechyd y coetir drwy godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd stiwardiaeth amgylcheddol.











> "Mae'r prosiect wedi gwella mynediad a chyfranogiad cymunedol, wedi gwella sylfaen sgiliau gwirfoddolwyr ac wedi darparu offer ychwanegol ar gyfer rheoli a datblygu coetiroedd"




TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

BBCW

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund